

TASG 1 : GWAITH CÔF

Mewn parau, dysgwch englyn Idris Reynolds ar eich cof, gan brofi eich gilydd am yn ail.

I hwyluso'r dasg, beth am rannu'r englyn yn ddwy: dysgwch y ddwy linell gyntaf i gychwyn, ac wedyn y cwpled olaf?

TASG 2 : YMCHWILIO

Ceisiwch ddod o hyd i:

- a) Un o luniau Kyffin Williams o gi defaid.
- b) Englyn enwog Thomas Richards 'Ci Defaid' sy'n cychwyn gyda'r llinell 'Rhwydd gamwr hawdd ei gymell'.

Sut maen nhw'n cymharu ag englyn Idris Reynolds fel portread o gi defaid?

TASG 3 : YMCHWILIO / DADANSODDI

Atgoffwch eich hun o stori Gelert, ci Llywelyn Fawr.

- a) Beth yw rhinweddau Gelert fel cymeriad yn y stori?
- b) Pa rai o'r rinweddau hyn sydd hefyd gan y ci defaid yn englyn Idris Reynolds?

TASG 4 : CREADIGOL

- a) Lluniwch boster clir ac atyniadol sy'n annog perchnogion i drin eu cŵn mewn modd cyfrifol.
- b) Rhestrwch dri o bethau y dylsai'r perchnogion wneud a thri o bethau **na** ddylsai'r perchnogion wneud o safbwynt gofalu am eu cŵn.